# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 24 RHAGFYR 2015**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU** A GYNHELIR YN **YSTAFELL BWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 AM, DYDD LLUN, 11EG IONAWR, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Michelle Evans Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224470** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **MEEvansThomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL | |
| 2. | CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 5ED TACHWEDD 2015 | 3 - 6 |
| 3. | WEDI YSTYRIED HOLL AMGYLCHIADAU'R ACHOS AC WEDI CYNNAL PRAWF BUDD Y CYHOEDD GALL YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL FARNU NAD YW'R EITEMAU GANLYNOL I'W CHYHOEDDI AM EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINNIR YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, FEL Y'I NEWIDIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. | |
| 4. | DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID | 7 - 18 |
| 5. | TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN OL DISGRESIWN | 19 - 30 |
| 6. | TRETHI ANNOMESTIG - CYMORTH DDEWISIOL | 31 - 44 |

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

## THURSDAY, 5TH NOVEMBER, 2015

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: **D.M. Jenkins** (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol)

Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| **Mr J. Fearn** | - | **Pennaeth Eiddo Corfforaethol** |
| **Mr J. Gravelle** | - | **Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw** |
| **Mr L. James** | - | **Rheolwr y Gwasanaethau Tai** |
| **Mrs M. Evans Thomas** | - | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |

**Democratic Services Committee Room, County Hall, Carmarthen** : **10.00 a.m. – 11.10 a.m.**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU – 16EG HYDREF, 2015**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2015 yn gofnod cywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. BRYNGWYN FARM, LLANGADOG**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn ymwneud ag unigolyn penodol, gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn a gwybodaeth ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf)**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith y byddai datgelu'r adroddiad yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor o ran trafod telerau. Hefyd roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag aelodau unigol o'r cyhoedd ac a ddatgelai pwy oeddynt a gwybodaeth ynghylch materion ariannol a materion busnes yr unigolion hynny. Felly ar ôl pwyso a mesur a rhoi ystyriaeth i amgylchiadau'r achos, barnwyd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a oedd yn yr adroddiad.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion cais a oedd wedi dod i law am brynu Bryngwyn Farm, Llangadog oedd yn rhan o Ystad Danyrallt.

Roedd dyfodol Bryngwyn Farm, gan gynnwys y posibilrwydd o'i gwerthu, wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol ar 15fed Ionawr, 2015 (gweler cofnod 12) ynghyd â ffermydd eraill ar Ystad Danyrallt. Penderfynodd y Bwrdd Gweithredol gadw ac ailosod y daliad pan fyddai'r tenant yn ildio'r cytundeb wrth ymddeol.

**PENDERFYNWYD bod Bryngwyn Farm, Llangadog yn cael ei chadw a'i hailosod.**

## 5. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddyledion unigolion a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, bernid bod y budd i'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a luniwyd yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a oedd yn gofyn am ddileu dyledion cyn-denantiaid oedd yn fwy na £1,500. Roedd y polisi ôl-ddyledion o ran cyn-denantiaid yn nodi'n glir y meini prawf yr oedd yn rhaid cydymffurfio â hwy wrth benderfynu a oedd yn annarbodus cymryd camau pellach er mwyn ceisio casglu dyled gan gyn-denant.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr atodlen o achosion a gyflwynwyd i'w dileu, ac roedd yr holl achosion yn bodloni gofynion y polisi.

**PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, fel rhai nad oedd modd eu hadennill.**

## 6. DILEU TALIADAU AM WASANAETHAU EIDDO PRYDLESOL - HEOL WALLASEY

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Dywedwyd nad oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi dyledion unigol, ac y byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a luniwyd yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a oedd yn gofyn am ddileu taliadau am wasanaethau eiddo prydlesol mewn perthynas ag eiddo yn Heol Wallasey, Rhydaman.

**PENDERFYNWYD dileu'r dyledion yn ymwneud â thaliadau am wasanaethau eiddo prydlesol mewn perthynas ag eiddo yn Heol Wallasey, Rhydaman, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

## 7. Y DRETH GYNGOR – GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth oedd yn datgelu pwy oedd unigolion sy'n agored i dalu'r Dreth Gyngor. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol nad oedd yn eiddo i'r cyhoedd ac na fyddai'n cael ei datgelu fel rheol i drydydd partïon. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, bernid bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y ceisiadau oedd wedi dod i law am ostyngiadau yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor.

Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno ac wedi dod i rym o Ebrill 2004 a roddai bwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.

**PENDERFYNWYD:-**

| | |
|---|---|
| **7.1** | **caniatáu ymestyn yr eithriad am y flwyddyn ariannol gyfredol mewn perthynas â chais cyfeirnod 60277834;** |
| **7.2** | **gwrthod y ceisiadau canlynol:-**<br><br>**cyfeirnod 60303791;**<br>**cyfeirnod 60304449;**<br>**cyfeirnod 60297747;**<br>**cyfeirnod 60158589;** |

| | |
|---|---|
| **7.3** | **oherwydd yr amgylchiadau eithriadol y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, caniatáu 25% o ddisgownt ychwanegol mewn perthynas â chais cyfeirnod 60276855;** |
| **7.4** | **caniatáu 50% o ostyngiad yn y Dreth Gyngor am y cyfnod 21ain Mai, 2015 tan 31ain Mawrth, 2016 (neu'r dyddiad pryd y bydd yr anghytundeb ynghylch perchnogaeth yn cael ei ddatrys, os yw'n gynharach) mewn perthynas â chais cyfeirnod 60186927.** |

**8. CYFRIFON ANADFERADWY**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddyledion unigolion a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, bernid bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar gyfrif gordaliad budd-dal tai a nodwyd fel un nad oedd modd ei adennill. Roedd yr holl weithdrefnau adennill wedi cael eu defnyddio ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai modd cael y taliad. Felly roedd yn cael ei ystyried yn briodol dileu'r ddyled hon yn erbyn darpariaeth ddarbodus y Cyngor ar gyfer drwgddyledion.

**PENDERFYNWYD bod y cyfrif y manylwyd arno yn yr adroddiad yn cael ei ddileu fel un nad oedd modd ei adennill.**

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol